Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
EBRILL 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 18fed Ebrill, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd RHOSTRYFAN

1. **Teyrnged i Mr.Hugh Jones**
Cafwyd munud o ddistawrwydd i gofio am Hugh Jones. Fe roddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth i'r cyngor. Penderfynwyd rhoi cyfraniad o £50 er cof amdano.

2. **Ymddiheuriadau**

3. **Croeso**
Cymerodd TE y gadair yn absenoldeb HW.

4. **Datgan Buddiant**

5. **Cadarnhau cofnodion** cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Mawrth 21ain, 2007.

6. **Materion i'w trafod:**
   - **a)** Cyfarfod â'r Cynghorau Cymuned efo Cyngor Gwynedd – HW, MW a clerc wedi mynychu. Taflenni dadgriminaleiddio wedi'u dosbarthu i bawb.
   - b) Cysgodfan bysiau Penffordd – Macemain & Amstad wedi trwsio'r gysgodfan – MW yn mynd i archwilio'r gwaith.
   - c) Cyflwr Tai Gwelfor – ymateb gan yr Adran Dai. Berwyn Parry Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cynnal a Chadw yn mynd i gynnal archwiliad ac ymateb yn ôl i'r Cynghorydd Glyn Owen wedi hynny.
   - d) Ymateb gan Timothy Hughes ynglŷn a'r broblem baw cŵn yn yr ardal. Addewid y byddai'r warden cwn yn cyfarfod a ni. Clerc i gysylltu eto.
   - **e)** Lein Bryngwyn – wedi derbyn llythyr gan Wyn Williams, Cyngor Gwynedd a Mike Schumann, Ffestiniog gyda datblygiad pellach yn datgan fod bwriad i lesio'r lein gyfan rhwng Tyddyn Gwydd a Bryngwyn i Gyngor Gwynedd. Clerc i geisio pwyso ar Dilys Phillips, Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd i fwrw 'mlaen efo'r cynllun ar fyrder.
   - f) Cynllun Uwchgwyrfai – ymateb gan Elwyn Vaughan yn nodi fod tendr y ffensio yn mynd i gael ei roi allan yn y dyfodol agos. Aelodau'n teimlo nad ydy hyn yn dderbyniol, gan fod hyn yn mynd ymlaen ers cyhyd. Clerc am gysylltu efo'r cyfryngau.
   - g) Dŵr ger Glyndŵr, Rhos Isaf – burst. Clerc wedi cysylltu a Chwmni Daniel ac mae'r Bwrdd Dwr wedi ymweld.
   - **h)** Stepiau sy'n arwain i'r mynydd ger Ochr Muriau – clerc wedi cysylltu efo Alwyn Jones, cynrychiolydd y Goron. Heb gael ymateb eto.
   - i) Cyffordd Ffrwd Cae Du – wedi gofyn am gael 'lane' ychwanegol i fynd i'r chwith beth amser yn ôl – clerc wedi cysylltu eto efo

Asiantaeth Cefnffyrdd Cymru yn Mae Colwyn. Maent yn mynd i ymchwilio ymhellach.

j) Cofeb Kate Roberts ar Lôn Wen – Steffan Jones wedi cysylltu i geisio trefnu cyfarfod safle, ond heb glywed yn ôl ganddo
k) Cyfarfod grŵp Cilgwyn – nos Iau, Mawrth 29ain am 6p.m. yn y Celtic Royal.
l) NE – arwyddion30 yn Rhos Isaf – dim rheolaeth ar y ffordd sy'n arwain o Penyceunant i Pen y Groeslon. Clerc wedi siarad efo Steffan Jones yn y cyfarfod yng Nghaernarfon – angen ei atgoffa eto fod angen archwiliad o'r safle, ac hefyd i drafod arwyddion 30 ar y ffordd sy'n arwain o Dinas lawr i Ysgol Felinwnda.
m) JH – ceir yn parcio tu allan i Gapel Horeb, Rhostryfan. Dim modd gwneud llawer, ond mae angen rhoi gwybod i'r wardeiniaid newydd am y broblem. Hefyd cais wedi dod i law gan drigolion sy'n byw yn ardal y becws yn Rhostryfan yn gofyn am gael llefydd parcio. Mae lle parcio wedi'i greu ar gyfer dau neu dri car ond nid yw hynny'n ddigonol. Mae safle posib dros y ffordd i Bryn Horeb, ond mae angen gwneud gwaith ar y safle. Cyngor Gwynedd wedi awgrymu y dylai'r Cyngor Cymuned dderbyn prydles ganddynt am bris rhad ar yr amod fod y cyngor cymuned yn gwneud y gwaith ar y safle. Aelodau ddim yn fodlon gwario ar y safle ond pe bai Cyngor Gwynedd yn creu'r safloedd parcio yna byddai Cyngor Llanwnda yn fodlon cymryd lês a threfnu'r tendrau parcio wedi hynny.
n) NW – glanhau'r ffyrdd yn Rhosgadfan. Gwaith wedi'i wneud. Angen checio fod Gwelfor ar y rhestr waith.
o) HW – palmant rhwng Aberalaw a Penffordd.
p) Nododd NE fod cynlluniau ynglyn â threfniadaeth ysgolion bellach wedi'i roi o'r neilltu am y tro.

7. **Derbyn Adroddiadau:**
Cyfarfod â'r heddlu 10.04.07 gynhaliwyd yn Neudd Rhostryfan. Nodwyd fod person ar fin cael ei arestio am ddifrodi'r ceir ym mhentref Rhostryfan. Dim problemau mawr yn yr ardal.

8. **Is-bwyllgorau:**

9. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	15,110.11
Cyfri Siec:	832.02
CYFANSWM	15,942.13
Cyflog/costau clerc – Ebrill (graddfa newydd o'r 1af o Ebrill £8.38 yr awr x 50 llai treth & costau swyddfa/ffôn/gweinyddu'r fynwent £62.50)	386.57
Ad-daliad Viking Direct	191.83
Cyllid y Wlad	94.93
Cyngor Gwynedd - rhent tir ger Ysgol Rhostryfan	1.00
Llogi Neuadd Llanwnda	6.00
Ceisiadau am nawdd:	
Ambiwlans Awyr	300.00
GWEDDILL	**£14,961.80**

10. **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
Tŷ newydd ar lain o dir ger Gwyndre, Rhos Isaf. Cafwyd copi o lythyr gan yr ymgeisydd yn egluro'r rheswm dros y cais.
Mae'r aelodau'n teimlo'n gryf iawn y dylid caniatau'r datblygiad yma. Maent yn deulu lleol, gyda dau o blant, ac fe fyddant yn ychwanegu llawer iawn i'r gymuned leol yn ogystal â'r ysgol, ac ni fyddai'r datblygiad yn amharu ar unrhyw un arall.

Llainfadyn, Rhos Isaf – estyniad i'r lolfa wydr.

Tai Bodawen – newid amod 3 i alluogi newid mewn dyluniad i'r ceisiadau blaenorol – dim gwrthwynebiad i'r cais yma.
Fodd bynnag, mae'r aelodau'n bryderus iawn am y datblygiad yma yn ei gyfanrwydd. Mae sawl cwyn wedi dod i law ynglyn â'r gwaith sy'n cael ei wneud. Mae'n ymddangos fod wal derfyn wedi'i dymchwel heb ganiatâd y perchennog, a bod y datblygwyr wedi gwneud camgymeriad wrth ymuno â phibellau carthffosiaeth preifat. Hefyd, mae'n ymddangos fod seiliau'r ty cyntaf wedi'i hadeiladu yn agos iawn iawn at wal derfyn ty cyfagos.

Dim angen cais cynllunio: Rhosgawen, Saron

Eisoes wedi'u caniatau:
Estyniad - Llwyn Impiau, Rhostryfan
Estyniad - Hafod Owen, Dinas
Estyniad – Blaen Cae, Saron

Gwrthodwyd:
Creu safle 4x4 Hafod Ty Newydd, Rhosgadfan
Dileu amod 3 o ganiatâd Co20/0331/24/LL – Tyn Rhos, Llanwnda

11. **Gohebiaeth:**
   - **a)** Steffan Jones – llythyr ynglŷn â Chynllun Amgylcheddol o Ansawdd – gangiau cymunedol
   - **b)** Tîm Cyflwyno'r Fyddin – Galeri Caernarfon 22.05.07
   - **c)** Cymru yn ei Blodau 2007
   - **d)** Gwynedd ar y Cyd
   - **e)** Gwybodaeth etholiadol
   - **f)** Cyfadran Adnoddau – gorychymyn cau ffordd
   - **g)** Cyfadran Amgylchedd – rhaglen waith
   - **h)** Ymgynghoriaeth G.Butler
   - **i)** Heddlu – angen cynrychiolydd o Gyngor Llanwnda i fod yn gynrychiolydd blaen
   - **j)** Ymgynghori ar geisiadau o dan Ddeddf Trwyddedu
   - **k)** Swyddfa'r Comisinydd Gwybodaeth (Cymru) – pamffled Deddf Rhyddid Gwybodaeth
   - **l)** Un Llais Cymru – aelodaeth/trefn gwyno/nodiadau ar Adroddiad Rhannu Cyfrifoldeb
   - m) Cynulliad – Adroddiad 'Rhannu Cyfrifoldeb'
   - n) Amlosgfa Bangor – ffioedd
   - o) Her Iechyd Cymru – Mynd Amdani

12. Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:
   a. Mater brys – mae cwynion wedi dod i law ynglyn â llygod mawr ger Tanrallt, Rhostryfan. Mae'r bwcedi olew, sydd wedi eu gadael ymhob man o gwmpas y safle, gan gynnwys y ffordd gyhoeddus, yn denu llygod, ac mae'r perchennog yn rhedeg busnes o'r safle heb ganiatâd. Clerc i gysylltu a'r Adran Iechyd yr Amgylchedd a Chynllunio.
   b. MW – ceir yn parcio yn y safle bysiau yn Penffridd.
   c. MW – cwynion am blant yn yfed alcohol ar safle'r ysgol yn Rhosgadfan.
   d. EmJ – angen eglurhâd o bolisi'r cyngor ynglyn â sut maent yn mynd ati i osod tai cyngor.
   e. TE – palmant Llanwnda
   f.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf – Mai 16eg – i'w gadarnhau.